



Hyfforddiant Rheoli Contract

6. Gorffennu Contract

Cynnwys

01 Rheoli diwedd y Contract

Terfynu - Estynu - Adnewyddu

02 Llunio strategaeth ymadael

Dull strategol o gynnal cysylltiadau â chwsmeriaid

03 Goblygiadau ôl-gontractiol

Rheoli ymrwymadau parhaus

04 Ymgymryd ag ymarferion 'gwersi a ddysgwyd'

Gwerthuso gwersi a phrofiadau ar gyfer contractau yn y dyfodol

01 Rheoli diwedd y Contract

Pam mae Contractau'n dod i ben?

- **Terfyniad (Termination)**
 - Torri Contract (Breach)
 - Terfynu er hwylustod (For convenience)

- **Diwedd Prosiect**
 - Cyrhaeddwyd cerrig milltir
 - Gwaith wedi'i gwblhau (derbyniad rhannol v llawn)

- **Dod i ben (Expiry of Term)**
 - Dyddiad / cyfnod penodol

02 Llunio strategaeth ymadael

Strategaeth diwedd Contract

- Cyn cyfnod olaf y Contract, ystyriwch a oes cyfle i adnewyddu neu ymestyn y Contract presennol:
 - Ystyriwch pa delerau yr hoffech chi eu newid yn y Contract presennol
 - Lluniwch strategaeth ar gyfer mynd at y / trafod gyda'r Cwsmer
 - Paratowch achos busnes newydd (rheolaeth a threfn / governance)
 - Paratowch strategaeth cyfarfod a thrafod, ac archwiliad telerau (terms audit)
 - Tynnwch sylw at y pethau cadarnhaol a'r uchafbwyntiau presennol i'r Cwsmer.

Caniatewch ddigon o amser i gyflawni'r ymarfer hwn, cyn i'r contract presennol ddod i ben.

02 Llunio strategaeth ymadael

Gwrthod Cais Cwsmer

Os yw'r Cwsmer eisiau estynu / adnewyddu (ond dych chi ddim)?

- Ystyriwch pam?
 - A yw'r elw yn rhy isel?
 - A yw'n an-strategol?
 - Anhawster recriwtio personél arbenigol?
 - Y Gadwyn Gyflenwi yn anymatebol?
- Bydd achos busnes yn cefnogi'ch naratif a bydd naill ai yn:
 - Nodi'r hyn sydd ei angen arnoch i gyd-drafod mewn ffordd wahanol, neu/ac yn:
 - Eich galluogi i egluro'ch rhesymau i'r Cwsmer.

03 Goblygiadau ôl-gontractiol

Ymrwymïadau parhaus

Er bod y Contract, o bosib, wedi dod i ben (yn dechnegol), bydd rhai cymalau ac ymrwymïadau yn goroesi – gan aros yn gyfreithiol rwymol y tu hwnt i ddyddiad gorffen y Contract.

- Rheoli Hawliadau a Gwarantau (Claims & Warranty Management)
- Rheoli Galw Cynnyrch Yn Ôl (Product Recall Management)
- Rheoli Anarferiant (Obsolescence Management) (e.e. ymrwymïad i barhau i gyflenwi cynnyrch sbâr am gyfnod penodol)
- Cyfrinachedd ac Eiddo Deallusol

04 Ymgymryd ag ymarferion 'gwersi a ddysgwyd'

Myfyrio ar Berfformiad Contract

Mae myfyrio ar berfformiad Contract yn darparu gwersi gwerthfawr ar gyfer gwella busnes yn y dyfodol.

- **Cytundebau byr-dymor** – gellir cyfuno data o'r Contractau hyn i nodi tueddiadau a gwelliannau e.e. a yw costau cludo yn uwch na'r rhagdybiaethau achos busnes? A yw diffygion ansawdd yn is na'r disgwyl?
- **Cytundebau hir-dymor** - yn cael eu monitro'n barhaus o ran eu perfformiad ac o ran beth y gellid ei wella trwy gydol eu cylch bywyd. Gall myfyrio terfynol hefyd ddarparu gwybodaeth bellach.